

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y Cyfarfod: 14 Rhagfyr 2023

Teitl: Adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach ynghylch Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/2023

Pwrpas yr adroddiad: Darparu adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2023

Cefndir:

Ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2022/2023.

Diffinnir y ddyletswydd i lunio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o dan y 'Cod Ymarfer ar Rôl Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol'.

Nod yr Adroddiad Blynyddol yw creu darlun cyflawn o Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Ceredigion, gan roi adborth amserol ar gyfer prosesau cynllunio a chyllido.

Argymhelliad:

Ar ôl ystyried y mater, cytunodd yr Aelodau i argymhell y dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- Derbyn yr adroddiadau er gwybodaeth yn unig.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am eu gwaith caled ac ymroddiad.

Y Cyngorydd Caryl Roberts
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau lachach